# Ordinhad 3

# Y Cyngor: Aelodau Annibynnol

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.2 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 3
# Y Cyngor: Aelodau Annibynnol

1. Aelodau Annibynnol

    i. Penodir hyd at ddeuddeg aelod, nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr, i'r Cyngor yn unol â'r Ordinhad hwn, am gyfnod hyd at bedair blynedd fel arfer. Ystyrir swydd Cadeirydd y Cyngor a swydd y Dirprwy Gangellorion / Dirprwy Gadeirydd yn unol â'r darpariaethau ar wahân yn yr ordinhad perthnasol; fodd bynnag, maent yn cyfrannu at gyfanswm y penodiadau a ganiateir dan yr Ordinhad hwn.

    ii. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn sicrhau bod seddi gwag yn cael eu hysbysebu'n allanol. Ymhellach, bydd yr ysgrifennydd yn hysbysu aelodau'r cyngor o seddi gwag ac yn gwahodd enwebiadau gan roi rhybudd o seddi gwag ac o'r dyddiad cau i enwebiadau fel y bydd yn rhesymol i alluogi i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu eu hystyried.

    iii. Bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis i ystyried penodi aelodau annibynnol a fydd yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Ysgrifennydd y Cyngor fydd ysgrifennydd y pwyllgor dewis.

    iv. Penodir aelod annibynnol ar sail y disgrifiad swydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

    v. Bydd y pwyllgor dewis yn gwneud ei argymhelliad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a hynny fel arfer erbyn y cyfarfod diwethaf cyn i'r swyddi ddod yn wag.

    vi. Os daw sedd aelod annibynnol yn wag, caiff y sedd wag ei llenwi cyn gynted â phosib, fel y disgrifir yn 1. ii ac 1. iii uchod.

2. Cymhwyster ar gyfer ailbenodiad

    i. Bydd aelod annibynnol yn gymwys i gael ei ailbenodi am gyfnod pellach o bedair blynedd fel arfer fel yr amlinellir ym mharagraff 10 y Siarter. Yn ogystal, bydd penodiad y cadeirydd, yn amodol ar baragraff 12 y Siarter

    ii. Pan fydd unigolyn wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir fel aelod annibynnol, ni fydd yn gymwys am benodiad pellach yn yr un categori aelodaeth fel arfer nes bod cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.

    iii. Bydd aelod annibynnol a gaiff ei ddiswyddo dan 1.4 Ordinhad 1 yn gymwys i'w ail-ethol ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.